# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 19eg o Fawrth 2019 am 8.00yn yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng R Gallie, G Evans, P Walton, J Phillips, W Evans, D Lewis, H James a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Lewis (CSC).

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 15fed o Ionawr a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**
Mae Rosemarie Davies wedi derbyn gwahoddiad y Cyngor i ymgymryd a'r archwiliad mewnol am 2018/19.

Efallai fydd eisiau symud y gist ailgylchu gwydr yn Llanwinio i alluogi'r cerbyd ailgylchu i'w wagau.

**CAE CHWARAE BLAENWAUN:**
Mae cynnig y Cyngor o £23,500.00 am y cae chwarae wedi ei dderbyn a maent wedi penodi Red Kite Law i ddelio efo'r pryniant. Gwnaeth y Cyngor hefyd gymeradwyo clustnodi £20,000.00 o'r gronfa wrth gefn i ariannu'r pryniant.

**GOHEBIAETH:**
Fe wnaeth un o drigolion Llanwinio gysylltu a'r Cyngor i ymholi a fyddai'r Cyngor yn fodlon cefnogi ei cynnig i roddi trosglwyddydd ar dwrbin gwynt i wella ei arwydd WiFi. Cytunodd y Cyngor i gefnogi ei cynnig.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Angela Burns AC am ei manylion cyswllt.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth CSC ynglyn a chyfarwyddyd amgylcheddol am reoli tir.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| GVO Wind No 24 - lles cymunedol mynegrifol | £279.30 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – Trydan i'r Neuadd Gymuned 23/10/8 – 01/01/19 | £100.90 |
| Swyddfa Archwilio Cymru – Archwilio'r cyfrifon 2017/18 | £203.50 |
| Red Kite Law – taliadu / costau | £500.00 |
| CSC – golau stryd 01/04/18 – 31/03/19 | £1101.75 |
| Un Llais Cymru - aelodaeth 2019/20 | £64.00 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif busnes - £16,255.26
Cyfrif trysorydd - £4872.75

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**
Clerc i hysbysu:
Twll mawr yn yr heol tu allan Encil Gwyn.
Eisiau gwaghau'r gist ailgylchu gwydr.

Gan fod ynna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 21ain o Fai 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**